

CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI

LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Donna Watts

Rhif Ffôn: 01248 602131

Ebost: CyngorLlandygai@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Tregarth
Nos Iau 18 Hydref 2018 am 1830

PRESENNOL:

Y Cynghorydd Dafydd Owen

Y Cynghorydd Mair Leverett

Y Cynghorydd Angharad Williams

Y Cynghorydd Mary Hayes

Y Cynghorydd Huw P Jones

Y Cynghorydd Mair Jones

Y Cynghorydd Mair Owen Pierce

1. Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Mair Jones.

Ymddiheuriadau gan y Cyng. Dafydd Roberts, Gabrielle Wyn, Gwen Griffith, Iwan Hywel a Richard Fraser-Williams.

2. Cofnodion

Penderfynwyd: Derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Medi 2018.

3. Materion yn codi o'r cofnodion

3.1 Llwybr beics pentref Llandygai- dal i ddisgwyl diweddariad gan Gyngor Gwynedd.

3.2 Mynydd Llandygai-ceir yn gyrru. Penderfynwyd ysgrifennu at Gyngor Gwynedd bod angen mwy o arwyddion ar hyd y ffordd, ac hefyd rhwystrau cyflymder. Aelodau o'r Cyngor a'r cyhoedd yn fodlon cyfarfod ar y safle i drafod y problemau. Cyfarfod heb ei drefnu hyd yn hyn.

3.3 Tynal Tywyll-y goleuadau/lampau heb gael eu newid. Y clerc wedi holi Cyngor Gwynedd am eu hamserlen i ymgymryd â'r gwaith. Dim ymateb hyd yn hyn.

3.4 Tarmac yn codi yn Bro Syr Ifor-y Cyng. Dafydd Owen am gysylltu gyda Gyngor Gwynedd. Problem hefyd yn Erw Faen.

3.5 Wal wedi ei malu ar Ffordd Tan Rhiw yn dilyn damwain car. Gwaith blêr o'i roi yn ôl at ei gilydd. Dim ymateb hyd yn hyn gan Gyngor Gwynedd.

3.6 Ffens wedi disgyn ar y Lôn Las wrth gerdded tuag at y dwnnel. Y Cyng. Dafydd Owen wedi hysbysu Cyngor Gwynedd, ond heb gael ymateb.

3.7 Lloches bws yn mynedfa pentref Llandygai – dim angen cais cynllunio ar gyfer gosod y lloches. Y Clerc i wneud ymholiadau pellach.

3.8 Goleuadau stryd Mynydd Llandygai – problemau gyda rhai ohonynt

Tan y Bwlch – golau yn diffodd am 9.30yh

Llwybr Main – golau ddim yn gweithio

Llwybr Main – y golau sydd ar yr arwydd ‘Ildiwch’ yn fflachio. Dim ymateb wedi dod gan Gyngor Gwynedd.

- 3.9** Problemau gor-yrru yn Mynydd Llandygai ac wrth Ysgol Bodfeurig. Y ffordd rhwng Llwybr Main a Tan y Bwlch yn cael ei ddefnyddio fel trac rasio. Angen cynigion i arafu'r traffig. Y Cyng. Richard Fraser-Williams am sôn yn cyfarfod y llywodraethwyr nesaf. Y Clerc i holi Cyngor Gwynedd a'r heddlu unwaith eto.
- 3.10** Arwydd Llandygai – angen cael diweddariad.
- 3.11** Hysbysfwrdd Llandygai – y contractwr wedi bwcio i mewn ar gyfer 10 Hydref i wneud y gwaith. Hysbysfwrdd yn racs, angen dyfynbrisiau i'w amnewid.
- 3.12** Diffibriliwr – angen diweddariad a prisiau, un ar gyfer Tregarth ac un ar gyfer Llandygai.
- 3.13** Llwybr o Parc fyni at Lôn y Grug – angen sylw. Y Cyng. Dafydd Owen am gysylltu hefo'r contractwr.
- 3.14** Cae chwarae/pêl-droed Tregarth – cwyn wedi ei dderbyn am y gwair hir. Y Cyng. Dafydd Owen am gysylltu gyda Cyngor Gwynedd. Y Clerc i holi faint o doriadau sydd wedi eu gwneud yn ystod y tymor.
- 3.15** Lôn Hermon a Lôn y Grug – baw ci dal yn broblem yno. Angen hysbysu Cyngor Gwynedd unwaith eto, a chael warden i ymweld cyn gynted a bo modd.
- 3.16** Arloesi Gwynedd Wledig - prosiect wi-fi cymunedol. Penderfynwyd holi am fwy o wybodaeth, a mynegi diddordeb y Cyngor yn y prosiect.

4. Gohebiaeth

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Hydref 2018'

Cyflwynwyd: llythyr gan Clwb Ieuenctid Mynydd Llandygai – cais am gyfraniad ariannol. Penderfynwyd bydd y Cyngor yn anfon sic o £1000.

Cyflwynwyd: e-bost gan Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol-Adroddiad Blynyddol 2019/20. Nodwyd yr ohebiaeth.

Cyflwynwyd: e-bost gan Dŵr Cymru-ymateb i'n llythyr i gwyno am ddiffyg gwasanaeth yn y Gymraeg. Penderfynwyd bydd y Cadeirydd a'r Clerc yn llunio ymateb.

Cyflwynwyd: llythyr gan Bartneriaeth Ogwen. Gwahoddiad i'r Cadeirydd (neu ddirprwy) i gyfarfod i drafod y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan y Bartneriaeth. Neb ar gael i fynychu.

Cyflwynwyd: e-bost gan Cyngor Pobl Hŷn Gwynedd. Digwyddiad ym Mhorthmadog 16 Tachwedd 2018. Y Cyng. Mair Leverett wedi dangos diddordeb mynychu.

Cyflwynwyd: cais gan y Clerc i bob cynghorydd edrych ar y biniau halen i wirio eu cyflwr ac os ydynt angen eu ailgyflenwi.

5. Gwaith y mis

- 5.1** Gwaith glanhau giatiaau mochyn-y Cyng. Dafydd Owen i gysylltu gyda'r contractwr.

5.2 Coed wedi disgyn ar y Lôn Las yn dilyn y tywydd stormus. Cyngor Gwynedd wedi bod allan yn eu torri a'u symud.

5.3 Yr hen ffordd wrth y Clwb Rygbi – sôn wrth y Swyddog Cynnal bod sbwriel yno.

5.4 Net i'r cwrt tenis – angen gwybod os bydd defnydd o'r cwrt dros y gaeaf, neu efallai buasai yn well aros tan y gwanwyn i'w archebu.

6. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr

Parc Cenedlaethol Eryri- y Cyng. Huw Jones wedi mynychu'r digwyddiad. Noson ddiddorol yn trafod prosiectau yn y Parc, y broses o sylwebu ar geisiadau cynllunio a'r problemau parcio wrth Llyn Ogwen. Hefyd, cafwyd adroddiad gan Helen Pye y warden. **Canolfan Tregarth** – adroddwyd bod myfyrwyr Coleg Menai wedi paentio'r hen ystafell snwcer. Adroddwyd bod y Pwyllgor am ddatblygu'r ystafell gyfarfod er mwyn cynyddu'r defnydd ohoni.

Ysgol Llandygai – cyfarfod llywodraethwyr wedi bod, popeth yn hwylus.

Neuadd Talgai – popeth yn rhedeg fel y dylai.

Ysgol Bodfeurig – yn y cyfarfod llywodraethwyr trafodwyd y gor-yrru tu allan i'r ysgol. Adroddwyd bod y plant am wneud posteri, ac bod wir angen arwydd gyda golau sy'n fflachio i rybuddio'r cerbydau bod plant yn cerdded i'r ysgol.

7. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu

7.1. Adroddwyd beth oedd y ffigyrau yn y banc ar ddiwedd mis Medi.

7.2. Rheoli Risg: Dim i'w ystyried ar hyn o bryd

8. Taliadau

Awdurdodwyd y canlynol:

Parry & Co	£330.00
Partneriaeth Ogwen	£5641.30
Glynllifon Services	£175.00

9. Sedd wag Ward Mynydd Llandygai

Dim diddordeb ar hyn o bryd, yr hysbyseb yn cael ei adnewyddu bob tair wythnos.

10. Penderfyniadau Cynllunio

C18/0123/16/TC

Spring Cottage, Carreg y Fedwen, Sling Cais tystysgrif cyfreithloni defnydd fel annedd breswyl Defnydd Dosbarth C3
Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau drosodd.

C18/0484/16/CR

Plas y Coed, Bangor
Newidiadau i'r caniatâd gwreiddiol er caniatáu addasiadau mewnol ac allanol
Penderfyniad: Caniatawyd, gydag amodau.

C15/0966/16/MG

Tir ger Pentwmpath, Llandygai
Cais materion a gadwyd yn ôl ar gyfer

	<p>codi 15 tŷ gan gynnwys 5 tŷ fforddiadwy Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau drosodd</p>
NP3/16/10C	<p>Fferm Pentre, Nant Ffrancon Pâr o feudai-newid defnydd tir i gynnwys 5 lle parcio, cadw deunyddiau, gwaith peirianyddol a tirlunio. Penderfyniad: Cais wedi ei gofrestru</p>
C18/0571/16/HY	<p>Llys y Gwynt, Bangor Arwyddion amrywiol wedi ei goleuo ac heb eu goleuo Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau drosodd</p>
C18/0657/16/LL	<p>Afon Galedffrwd, Mynydd Llandygai Cynllun trydanol Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau drosodd</p>
C18/0665/16/LL	<p>The Lodge, Mynydd Llandygai Dymchwel y modurdy presennol a chodi modurdy dwbl gyda gweithdy uwchben yn ei le Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau drosodd</p>
NP3/16/28	<p>Ogwen Falls Snack Bar, Nant Ffrancon, Bethesda Codi monopolyn 15m o uchder wedi'i gladio â choed Penderfyniad: Cais wedi ei gofrestru</p>
C18/0170/16/LL	<p>Fferm Cororion, Lon y Wern, Tregarth Dymchwel estyniad unllawr presennol (ôl-weithredol) a gosod estyniad yn ei le Penderfyniad: Cais wedi ei gofrestru</p>
C18/0169/16/CR	<p>Fferm Cororion, Lon y Wern, Tregarth Dymchwel estyniad unllawr presennol (ôl-weithredol) a gosod estyniad yn ei le Penderfyniad: Cais wedi ei gofrestru</p>
C18/0736/16/LL	<p>Fferm Dinas Caravan Park, Tregarth</p>

Estyniadau a newidiadau ynghyd ag ail-wampio cyffredinol a gwaith adnewyddu i floc toiledau presennol
Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau drosodd.

C18/0746/16/LL

Vestry, Llys Owen, Tregarth
Dymchwel yr adeilad presennol a chodi uned breswyl fasnachol agored ac uned breswyl fforddiadwy newydd
Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau drosodd

C18/0817/16/LL

Gateway Park, Stad Ddiwydiannol Llandygai, Bangor
Creu unedau diwydiannol ychwanegol oddi fewn i'r adeilad presennol, llecynnau parcio ychwanegol ynghyd a newid edrychiad allanol yr adeilad
Penderfyniad: Cais wedi ei gofrestru

C18/0767/25/LL

Coed Wern, Glasinfryn
Safle arfaethedig ar gyfer 40 llety, adeilad derbynfa, a chreu 2 nodweddion dŵr. Ynghyd a ffurfio ffyrdd mynediad cysylltiedig a meysydd parcio, tirweddu a gwaith cysylltiedig eraill.
Penderfyniad: Cais wedi ei gofrestru

11.Ceisiadau Cynllunio

C18/0848/16/LL

17 Llwybrmain, Mynydd Llandygai
Estyniad cefn i'r annedd
Penderfyniad: Cefnogi, gwedd yn cadw mewn cymeriad gyda gweddill y stryd.

C18/0837/16/LL

The Old Port Office, Porth Penrhyn, Bangor
Newid defnydd cyn swyddfa yn defnydd manwerthu bwyd môr
Penderfyniad: Cefnogi, lleoliad addas ac hefyd yn hybu busnes a diwydiant lleol.

C18/0836/16/CR

The Oldest Port Office, Porth Penrhyn, Bangor
Addasiadau mewnol i'r adeilad
Penderfyniad: Cefnogi.

C18/0767/25/LL

Coed Wern Tŷ Gwyn – Glasinfryn
Lleoli 40 uned llety gwyliau
Penderfyniad: Gwrthwynebu-coetir
hynafol. Y safle rhy agos i ffordd
berygl, a groesffordd perygl ofnadwy.
Buasai'r datblygiad hefyd yn amharu
ar y llwybr cyhoeddus a'r llwybr
ceffylau sydd ar ffin y safle.

12. Unrhyw fater brys arall
Dim i'w drafod.